



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2RU**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol ddwyieithog wedi ei lleoli tua dwy filltir o dref Rhuthun. Mae'n gwasanaethu pentref Llanfair a Phwllglas a'r ardal gyfagos ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae 73% o ddisgyblion presennol yr ysgol yn dewis cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 102 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 13 disgybl oed meithrin. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion rhan-amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y mis Medi dilynol. Mae'r ysgol wedi'i threfnu'n chwe dosbarth sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau cymysg mewn dau ohonynt.

Daw 49% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref. Mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan tua 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2005. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn 2015-2016 yw £4,000. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £8,860 a'r lleiafswm yw £2,933. Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn safle 25 o'r 46 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- medrau llythrennedd, rhifedd a dwyieithrwydd disgyblion yn cael eu datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn yn y dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol
- rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig wrth gyfrannu mewn gwersi, ac yn hyderus wrth wneud dewisiadau am eu dysgu
- staff yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sydd yn ateb gofynion yr holl ddisgyblion
- ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau
- y staff yn defnyddio deilliannau profion safonol a system olrhain cynnydd yn effeithiol i fesur cynnydd disgyblion
- yr adeilad a'r ardal allanol yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu yn llwyddiannus

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth ddisgwyliaid uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr
- athrawon ymroddedig a brwdfrydig sy'n cael effaith gadarnhaol ar y profiadau ysgogol a ddarperir ac ar godi safonau gwaith disgyblion
- y llywodraethwyr yn deall cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach
- trefniadau hunanarfarnu wedi gwreiddio ym mywyd a gwaith yr ysgol
- cynllun datblygu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau disgyblion
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n effeithiol
- y pennaeth, gyda chymorth y llywodraethwyr ac arweiniad gan yr awdurdod addysg, yn monitro a rheoli'r cyllid yn ofalus

Argymhellion

- A1 Cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddatblygu'r holl fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ymhob dosbarth
- A2 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg neu ychydig yn is na'r rheini a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o oed tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u manau cychwyn.

Mae medrau gwranddo bron pob disgybl yn dda iawn ac maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau'n gydwybodol ar dasgau. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol yn eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy, gan ddefnyddio amrediad eang o eirfa a mesur da o gywirdeb. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth fynegi barn a thrafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd, mae llawer yn defnyddio strategaethau effeithiol i ddarllen yn annibynnol ac yn trafod agweddau o lyfr yn fedrus er mwyn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda rhuglder, mynegiant a dealltwriaeth dda. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol ar draws ystod o bynciau. Mae uwch fedrau darllen llawer o ddisgyblion yn dda ac mae eu gallu i gip ddarllen gwybodaeth ffeithiol er mwyn canfod y prif ffeithiau, yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae gallu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu darnau estynedig yn llwyddiannus yn yr iaith maent yn cael eu haddysgu. Maent yn sillafu geiriau cyfarwydd ac yn atalnodi'n gywir, gan amrywio cychwyn brawddegau. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ffurfiau cryno'r ferf yn hyderus ac yn defnyddio ansoddeiriau addas yn effeithiol. Enghreifftiau da o hyn yw'r gerdd am Noson Tân Gwylt a'r llythyr o ddiolch at bostfeistr swyddfa bost Ruthun. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig mewn amrywiaeth o arddulliau yn llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio geirfa ddiddorol i gyfoethogi eu gwaith. Maent yn cyflwyno eu syniadau a'u gwybodaeth yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi. Mae hyn yn cynnwys adroddiad papur newydd am brotest yn erbyn boddi Capel Celyn mewn gwrs hanes, a chofnodi gwybodaeth am wahanol blanedau mewn gwyddoniaeth. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus iawn.

Mae medrau rhifedd y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar

ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i ddatrys problemau o fewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Gallant hefyd ddefnyddio unedau safonol i bwysu a mesur hyd yn gywir ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Enghreifftiau o hyn yw adeiladu cledrau trêen a thwneli o hyd arbennig a mesur pellter mae car yn ei deithio i lawr llethrau o wahanol uchder. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael sicr ar ystod briodol o fedrau rhif. Maent yn defnyddio dulliau addas i ymgymryd â'u tasgau mesur, siâp a thrin data'n gywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau yn briodol mewn gwaith ymchwil, er enghraifft drwy ddadansoddi poblogaeth gwledydd a chymharu'r tymheredd â'r ardal leol. Erbyn blwyddyn 6, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd, gyda'r rhan fwyaf yn cymhwyso'r wybodaeth hon ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Maent yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn fedrus wrth ddarganfod costau gwahanol fedalau yn y Gemau Olympaidd. Maent yn trafod data'n hyderus, gan lunio graffiau sy'n briodol at wahanol bwrpasau, er enghraifft graff llinell yn cofnodi amser codiad a machlud haul yn fisol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau gwranddo a llafar yn y Gymraeg y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy'r Saesneg, yn datblygu'n fuan iawn. Maent yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau, cwestiynau a chyfarchion drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gyda'r mwyafrif o eiriau cyffredin wedi eu sillafu'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd. Maent yn hyderus wrth gynnal sgwrs estynedig mewn amrywiol sefyllfaoedd, yn darllen yn gywir ac ystyrlon ac yn ysgrifennu darnau estynedig i safon dda ar draws ystod o bynciau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ysgrifennu darn ffeithiol am eu hoff blaned. Mae meithrin medrau dwyieithrwydd ymysg yr holl ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd Cymraeg a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwylidig wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf, ac mewn tair o'r pedair blynedd mewn llythrennedd Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwylidig mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is dros yr un cyfnod.

Dros y pedair blynedd diwethaf, ar y deilliant uwch, mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd Cymraeg a datblygiad mathemategol wedi amrywio'n fawr. Mae perfformiad yr ysgol yn gyson yn y 25% isaf mewn llythrennedd Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefel uwch, mae perfformiad disgyblion yn amrywio'n sylweddol mewn Saesneg a Chymraeg ac nid oes patrwm cyffredinol. Mae'r perfformiad yn gyson yn y 50% is a'r 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad merched o'u cymharu â'r bechgyn ar y deilliannau a'r lefelau disgwylidig ac eithrio Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2, lle mae perfformiad y merched yn uwch mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng perfformiad merched o'u cymharu â'r bechgyn ar y deilliannau a'r lefelau uwch.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn ac yn erbyn eu targedau personol.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel iawn. Mae hyn yn gwneud cymariaethau â disgyblion eraill yn amhriodol.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac ymarfer corff i gadw'n heini. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn trefnu gweithgareddau ffitrwydd cyffrous i'w cyfoedion er mwyn hyrwyddo hyn yn llwyddiannus fel wythnos feicio a duathlon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig wrth gyfrannu mewn gwersi, ac yn hyderus wrth wneud dewisiadau am eu dysgu. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn yn y dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Maent yn gwrtais, yn barchus ac yn dangos sensitifrwydd tuag at eraill.

Mae bron pob disgybl yn cael llais ym mhenderfyniadau'r ysgol trwy waith y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Mae aelodau'r cynghorau yn gofyn barnau'r disgyblion eraill yn rheolaidd ac yn ymateb i'w syniadau'n frwdfrydig, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae eu gwaith yn cynnwys gwneud penderfyniadau pwrpasol am ymgyrchoedd codi arian ar gyfer elusennau amrywiol a threfnu diwrnodau eco diddorol yn rheolaidd. Mae bron pob disgybl yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol fel cyngherddau, eisteddfodau a gwasanaethau yn y pentref a'r gymuned ehangach. Mae'r profiadau hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn llwyddiannus ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Mae presenoldeb yr ysgol ymhlith y 50% uwch a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb bron pob disgybl yn dda iawn.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Trwy gydweithio effeithiol, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sydd yn ateb gofynion yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn darparu profiadau cyfoethog drwy'r cynllunio parhaus sydd yn ateb gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Cwricwlwm Cenedlaethol, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol yn llwyddiannus. Mae'r ystod eang o brofiadau allgwricwlaidd symbylus yn atgyfnerthu'r dysgu yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau dychmygus sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Maent hefyd

yn darparu cyfleoedd pwrpasol ac ymarferol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion, yn enwedig mewn ymholiadau gwyddonol amrywiol. Er hynny, nid yw'r cynllunio i ddatblygu holl fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi datblygu i'r un graddau ar draws yr ysgol.

Mae'r Cwricwlwm Cymreig a thrwytho disgyblion yn y diwylliant Cymreig yn nodwedd bwysig yng nghynllunio'r ysgol. Enghreifftiau da o hyn yw cydweithio â'r cyfansoddwr lleol, Robot Arwyn, a chreu cerddi gyda Bardd Plant Cymru. O ganlyniad, mae gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u diwylliant ac maent yn ymfalchïo yn eu treftadaeth.

Mae'r ysgol yn darparu ystod werthfawr o brofiadau i ddisgyblion i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys astudio gwledydd fel Ethiopia, cynnal wythnos Tsieineaidd a gweithgareddau ysgol goedwig. O ganlyniad, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion amgylcheddol a materion byd-eang yn datblygu'n dda.

Addysgu: Da

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae gan yr athrawon wybodaeth drylwyr am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Ym mhob dosbarth, mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion yn rhoi cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a ffocws clir, a thrwy holi medrus, maent yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn datblygu eu medrau dysgu'n effeithiol. Mewn ychydig iawn o'r gwersi lle nad yw'r addysgu cystal, mae rhediad y gwersi'n araf a chyflwyniadau'n hir.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn datblygu'n gadarn. Lle mae ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant yn fwriadus gyda'r disgyblion. Maent yn disgwyl i'r disgyblion asesu eu gwaith yn ôl y meini prawf hyn, ond nid yw'r arfer yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd a thrwyadl, gan gynnig sylwadau adeiladol sydd o gymorth iddynt wybod beth yw'r cam nesaf yn eu dysgu. Maent yn defnyddio deilliannau profion safonol a system olrhain cynnydd yn effeithiol i fesur cynnydd ac i flaenoriaethu cefnogaeth briodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr a chlir, ac yn cydymffurfio â'r gofynion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn addysgu'r disgyblion yn effeithiol am bwysigrwydd cadw'n heini a diogelwch personol. Fe wneir hyn yn llwyddiannus drwy themâu dosbarth, gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol a'r clwb garddio sy'n addysgu'r disgyblion am dyfu a pharatoi ffrwythau a llysiau ar gyfer eu bwyta.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r gwasanaethau boreol a chyfnodau i fyfyrion yn amlwg ym mywyd yr ysgol ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau cyson y ficer a gwasanaethau 'Agor y llyfr', ac o ganlyniad, mae gwerthoedd megis tegwch yn cael eu meithrin yn dda.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cyson dda gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol, gan gynnwys therapyddion lleferydd, cyngorydd ymddygiad y sir, yr heddlu a'r nyrs ysgol. Mae'r asiantaethau a'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion ac yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion lles.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau â ffocws clir. Mae'r athrawon, dan arweiniad y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol, yn gwerthuso'r rhain yn rheolaidd a chânt eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth llythrennedd a rhifedd manwl ar gyfer grwpiau ffocws ym mhob dosbarth sy'n cyfrannu at y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, gyfeillgar a theuluol lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal gyda mynediad i holl weithgareddau'r ysgol. Mae polisiau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac mae gweithgareddau allgyrsiol yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus. Mae'r holl staff yn annog ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol iawn. Rhoddir pwyslais cryf ar ddangos parch at bawb a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch.

Er bod prif adeilad yr ysgol yn hen, gwneir defnydd llawn o'r ystafelloedd, y cabanau a'r ardaloedd tu allan, er enghraifft yr ardd a'r ardal chwarae, er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau. Ceir ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd chwarae allanol a chaiff y rhain eu defnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu. Mae'r safle'r ysgol yn ddiogel, yr adeilad yn raenus a'r tir yn cael ei gynnal a'i gadw'n daclus.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae ei harferiad o arwain trwy esiampl yn hybu cydweithio clos rhwng y staff, er lles y disgyblion.

Mae'r athrawon ymroddedig a brwdfrydig yn cael effaith gadarnhaol ar y profiadau ysgogol a ddarperir ac ar godi safonau gwaith disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff fel cyfrwng effeithiol i drafod data perfformiad, cynllunio, a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad trylwyr ar gyfer athrawon, sydd yn adnabod ac yn cefnogi agweddau perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae hefyd yn gymorth i ddatblygu targedau personol ac ysgol gyfan fel datblygu medrau llythrennedd trwy raglen waith gyhoeddedig.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer mapio'r medrau ar draws y cwricwlwm wedi eu plethu'n effeithiol. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion sy'n tangyflawni, trwy raglenni ymyrraeth amrywiol.

Mae'r llywodraethwyr yn deall cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae ymweliadau rheolaidd â'r ysgol i fonitro cynnydd yn eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol at y broses hunanarfarnu ac i herio'r ysgol yn llwyddiannus i gynnal safonau a sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Gwella ansawdd: Da

O dan arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, mae diwylliant hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda. Mae trefniadau hunanarfarnu wedi gwreiddio ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae dadansoddi data trylwyr mewn cyfarfodydd staff a llywodraethwyr yn sicrhau dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn cynnig darlun cywir o'r ysgol. Mae'n dystiolaeth bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod amrywiol o dystiolaeth i gefnogi barnau'r adroddiad, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion, monitro addysgu a chasglu mewnbwn rhieni a llywodraethwyr yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn bwrpasol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu yn gynhwysfawr. Mae'n nodi targedau perthnasol a phenodol ac mae'r meini prawf llwyddiant yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o amserlen gweithredu, nodi cyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a rhaglen drylwyr ar gyfer monitro cynnydd.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu wedi arwain at rwydwaith proffesiynol diweddar rhwng ysgolion sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar waith disgyblion trwy ddatblygu ffurfiau amrywiol o ysgrifennu estynedig. Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol ym mhob un o'r argymhellion.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni sy'n cyfrannu symiau sylweddol o arian yn rheolaidd ar gyfer darparu adnoddau a chyfarpar, fel offer technoleg gwybodaeth a'r parc chwarae pren. Mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau cwricwlaidd i rieni yn gyson i'w harfogi i gynorthwyo'u plant â'u gwaith yn effeithiol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi hyn.

Mae'r cysylltiadau cadarn â chymdeithasau a sefydliadau lleol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol iawn. Mae disgyblion yn ymweld yn gyson â chymdeithasau amrywiol a chartrefi henoed i ddiddanu'r preswylwyr. Mae hyn, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned leol ac yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cyfrifoldebau cymunedol. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos â busnesau lleol sy'n cyfrannu at adnoddau i ardd yr ysgol yn rheolaidd. Enghreifftiau o hyn yw prynu byrddau picnic a chyfrannu gorsaf bwyd adar a digon o fwyd am y gaeaf.

Mae cysylltiadau llwyddiannus â'r cylch meithrin cyfagos yn sicrhau cydweithio cadarnhaol gydag aelod o staff yr ysgol. Mae'r berthynas hon yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae'r cydweithio agos gyda'r ysgol uwchradd yn cynnig profiadau amrywiol i hwyluso trosglwyddiad esmwyth i'r disgyblion hyn.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd y clwstwr a'r ysgol uwchradd. Mae'r portffolios defnyddiol yn deillio o'r cyfarfodydd hyn sy'n enghreifftio lefelau cyrhaeddiad yn gywir ac yn gymorth i athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y llywodraethwyr ac arweiniad yr awdurdod addysg, yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus, gan sicrhau bod cysylltiad agos â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r defnydd a wneir o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio rhaglenni ymyrraeth i wella medrau llafaredd ac ysgrifennu'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i sicrhau ei bod yn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithlon. Mae cymorthyddion yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol iawn ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion.

Mae ystod o gyfleoedd hyfforddiant addas, a threfniadau rheoli perfformiad cadarn, i sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i ddiwallu anghenion datblygu staff a blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau ac fe'u defnyddir yn effeithiol i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned dysgu gref ac yn rhan o nifer o rwydweithiau sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, er enghraifft i ddatblygu medrau rhifedd trwy wyddoniaeth. Mae staff yn datblygu eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion eraill drwy'r rhwydweithiau hyn.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6633045 - Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	109
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	8.3
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	10	10	13	12
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	100.0	100.0	92.3	100.0
Chwartzel meincnod	1	1	2	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwartzel meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwartzel meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	8	9	10	8
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	37.5	33.3	30.0	25.0
Chwartzel meincnod	2	2	3	4
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	10	13	12
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	40.0	40.0	38.5	25.0
Chwartzel meincnod	1	1	2	4
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	10	13	12
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	70.0	40.0	46.2	50.0
Chwartzel meincnod	1	3	3	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartzel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartzel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartzel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6633045 - Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 109
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 8.3
 Grŵp PYD 2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	12	17	15	16
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	100.0	94.1	93.3	100.0
Chwarter meincnod	1	1	2	1
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	12	17	15	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	94.1	93.3	100.0
Chwarter meincnod	1	2	3	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	66.7	29.4	46.7	50.0
Chwarter meincnod	1	3	2	2
Gymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	11	11	11	11
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	90.9	90.9	90.9
Chwarter meincnod	1	2	2	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	45.5	45.5	*	*
Chwarter meincnod	2	1	*	*
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	12	17	15	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	94.1	93.3	100.0
Chwarter meincnod	1	2	3	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	35.3	40.0	43.8
Chwarter meincnod	*	3	3	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	12	17	15	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	94.1	93.3	100.0
Chwarter meincnod	1	3	3	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	35.3	40.0	31.3
Chwarter meincnod	*	3	3	4

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	45	45 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	45	43 96%	2 4%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	45	43 96%	2 4%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	45	44 98%	1 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	45	43 96%	2 4%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	45	45 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	45	45 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	45	45 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	45	45 100%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	45	44 98%	1 2%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	45	39 87%	6 13%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	45	38 84%	7 16%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	39	28 72%	11 28%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		64%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	39	33 85%	5 13%	1 3%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	39	32 82%	7 18%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		73%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	37	28 76%	8 22%	1 3%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	38	22 58%	16 42%	0 0%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	38	28 74%	10 26%	0 0%	0 0%	1	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	38	28 74%	10 26%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	35	24 69%	10 29%	1 3%	0 0%	4	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	37	26 70%	9 24%	1 3%	1 3%	2	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		61%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	37	24 65%	12 32%	1 3%	0 0%	2	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		61%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	39	26 67%	12 31%	1 3%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		67%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	30	21 70%	9 30%	0 0%	0 0%	8	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	37	20 54%	13 35%	3 8%	1 3%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		50%	40%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	38	31 82%	6 16%	0 0%	1 3%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		63%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	33	22 67%	8 24%	2 6%	1 3%	6	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	38	25 66%	13 34%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	28	20 71%	7 25%	0 0%	1 4%	10	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		53%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	38	26 68%	10 26%	1 3%	1 3%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	38%	5%	1%		
The school is well run.	38	31 82%	7 18%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Sioned Hywel Thomas	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Gareth Williams	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Steffan Griffiths	Arolygydd Cymheiriaid
Llinos Hughes	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.